# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS (2) 04 -06 (p2))

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 08 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am - 12.00pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Adolygiad o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru

#### 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio'n llawn â thelerau diwygiad y gwrthbleidiau a oedd yn destun pleidlais yn y Cynulliad ar 1 Chwefror 2006. Mae'r broses o ariannu'r 6 sefydliad celfyddydol cenedlaethol bellach yn nwylo Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r diwygiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnal adolygiad cyhoeddus yn ddi-oed o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn cyfeirio at ymgynghoriad ar y sefydliadau celfyddydol cyhoeddus. Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylai'r ddwy elfen hon gael eu cynnwys gyda'i gilydd mewn un arolwg.

#### 2. Mae Cylch Gorchwyl Drafft o'r arolwg yn cael ei amlinellu isod:

I gyhoeddi adroddiad terfynol cyn mis Rhagfyr 2006, ynghyd â thystiolaeth berthnasol, wedi'i lunio i lywio penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad ar swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn y dyfodol, a swyddogaeth y sefydliadau celfyddydol cenedlaethol a'r broses o'u hariannu.

Bydd yr Adolygiad yn cynghori'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ynghylch:

a) Swyddogaeth bresennol CCC mewn perthynas â:

- y modd y mae'n ariannu'r celfyddydau, yn cynnwys y sefydliadau celfyddydol cenedlaethol ;
- y broses o ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru ;
- y broses o ddatblygu mynediad a chynhwysiant yn y celfyddydau, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.

b) Effeithiolrwydd CCC wrth :

- ddatblygu a rheoli ei bortffolio cleientiaid refeniw ;

- gwella mynediad i'r celfyddydau ac arbenigedd yn y celfyddydau ;
- darparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol.

c) Y broses o ariannu'r celfyddydau mewn cyd-destun rhyngwladol :

- lefelau o ariannu ar gyfer y celfyddydau ;
- systemau ariannu.

Bydd yr adroddiad yn dod i gasgliadau ac yn cynnig argymhellion.

## 3. Aelodaeth a Dull o Weithio

Rwy'n cynnig bod y panel adolygu yn cynnwys pump aelod. Byddant yn cael eu penodi gan y Llywodraeth, a byddaf yn trafod enwau posib ag aelodau'r Pwyllgor cyn rhoi aelodaeth derfynol.

Bydd yn rhaid i'r panel adolygu :

- adolygu a dadansoddi sail y dystiolaeth er mwyn sicrhau sylfaen gref ar gyfer y broses o ddatblygu argymhellion polisi ;
- ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a grwpiau er mwyn archwilio amrywiaeth o syniadau ar swyddogaeth CCC, yn ogystal ag agweddau posib ar y broses o ddatblygu'r celfyddydau yn y dyfodol ;
- gwneud argymhellion polisi i'r Llywodraeth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus.

4. Bydd yn rhaid i aelodau'r panel feddu ar y gallu i edrych ar y maes hwn o bolisi cyhoeddus yn ei gyflawnder, yn cynnwys datblygiadau presennol yng Nghymru, gweddill Prydain a thramor. Bydd hefyd yn rhaid i aelodau feddu ar wybodaeth o'r celfyddydau a dealltwriaeth fanwl o’r llywodraeth a'r sector cyhoeddus. Bydd sicrhau cydbwysedd o ran rhyw, ethnigrwydd a lleoliadau daearyddol aelodau’r panel yn bwysig.

5. Dylai'r Panel gyfrannu'n uniongyrchol at agweddau cyhoeddus yr adolygiad, hynny yw :

- ymgysylltu ag ystod eang o ymarferwyr celfyddydol ac eraill yn y sector ;
- cynnal trafodaeth gyhoeddus er mwyn ymgysylltu ag ystod ehangach o safbwyntiau a syniadau.

6. Dylai'r Panel ddangos eu bod yn ymgysylltu â phobl a chymunedau ac yn deall eu safbwyntiau – rhan bwysig o'r angen am "adolygiad cyhoeddus".